Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2016-17

Gorffennaf 2016

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw’r corff sy’n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o’r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid**

Gellir cael rhagor o gopïau o’r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyllid**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddCyllid**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy’n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2016-17

Gorffennaf 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

# Y Pwyllgor Cyllid

Cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 19; swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.10 a 18.11; ac ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â Chronfa Gyfunol Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Simon Thomas (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Steffan Lewis**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Eluned Morgan**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Nick Ramsay**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



**Mark Reckless**
Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP)
Dwyrain De Cymru



**David Rees**
Llafur Cymru
Aberafan

**Roedd yr Aelodau canlynol hefyd yn aelodau o'r pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:**



**Jeremy Miles**
Llafur Cymru
Castell-nedd



**Adam Price**
Plaid Cymru
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

**Roedd yr Aelod canlynol yn bresennol fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn:**



**Neil Hamilton**
Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP)
Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys

Argymhellion ..... 5
Trosolwg ..... 6
Trafod y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2016-17 ..... 8
Tystion ..... 14

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fanteisio ar gyfleoedd i leihau'r gost o gynnal etholiadau i drethdalwyr. .............................. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi mwy o dystiolaeth sy'n nodi'r rhesymeg y tu ôl i ddyraniadau'r gyllideb yn y dyfodol, fel y cynllun rhyddhad ardrethi busnes, gan gynnwys manylion am yr effaith economaidd a ragwelir. Bydd hyn yn helpu Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru i graffu ar raglenni o ran eu llwyddiant a'u gwerth am arian. Cyflwyno'r gyllideb ac arian canlyniadol Barnett. .............................. (Tudalen 12)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwybodaeth i sicrhau ei bod yn bosibl olrhain dyraniadau i adrannau a phrosiectau mawr yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Dylai hyn gynnwys galluogi cymariaethau i gael eu gwneud pan fydd portffolios Ysgrifenyddion Cabinet yn newid. .............................. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am drafodaethau â Thrysorlys y DU ynghylch unrhyw benderfyniadau a allai arwain at newidiadau i gyllideb Llywodraeth Cymru yn y misoedd nesaf. .............................. (Tudalen 13)

# Trosolwg

**1.** Gosodwyd y Gyllideb Atodol gyntaf ar gyfer 2016-17[1] gan Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (Ysgrifennydd y Cabinet), ar 21 Mehefin 2016. Yn ogystal, cyflwynwyd nodyn esboniadol[2] a thablau yn dangos y dyraniadau i'r prif grwpiau gwariant (MEG).

**2.** Mae proses y gyllideb yng Nghymru wedi'i nodi yn Rhan 5 o **Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**[3] ac yn **Rheolau Sefydlog**[4] **Cynulliad Cenedlaethol Cymru** (y Cynulliad). Dyma gamau'r broses:

- **Cynigion y gyllideb ddrafft**: mae'r rhain yn nodi cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru fel y gall y Cynulliad graffu arnynt a'u diwygio;
- **Cynnig cyllideb blynyddol**: mae'r rhain yn ceisio awdurdodiad ffurfiol y Cynulliad ar gyfer yr adnoddau a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol, yn seiliedig ar y Gyllideb Derfynol;
- **Cynigion cyllideb atodol**: mae'r rhain yn ceisio awdurdodiad ar gyfer newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r cynnig cyllideb blynyddol. Fel arfer, ceir dwy gyllideb atodol bob blwyddyn ariannol, un ym mis Mehefin ac un ym mis Chwefror.

**3.** Mae'r gyllideb atodol yn diwygio Cyllideb Derfynol 2016-17,[5] a gymeradwywyd gan y Pedwerydd Cynulliad ar 8 Mawrth 2016.

**4.** Mae'r gyllideb atodol yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwario mwy nag £16 biliwn yn 2016-17. O'r arian hwnnw, mae £14.5 biliwn wedi'i ddyrannu i Adrannau Llywodraeth Cymru (a elwir yn derfyn gwariant adrannol, neu DEL). Mae Ffigur 1 yn dangos y dyraniadau i adrannau.

**5.** O'r £1.5 biliwn sy'n weddill, mae tua £1 biliwn yn gysylltiedig â derbynebau ardrethi busnes a gaiff eu hailddosbarthu ymhlith awdurdodau lleol, a Gwariant Arall a Reolir yn Flynyddol (neu AME) yw'r £0.5 biliwn sydd ar ôl.


**6.** Yn ogystal, cedwir £0.6 biliwn fel cronfa wrth gefn ganolog i'w dyrannu yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

**7.** Ymddangosodd Ysgrifennydd y Cabinet gerbron y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ar 28 Mehefin 2016. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor, sy'n seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law.

---

[1] http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10676/gen-ld10676-w.pdf
[2] http://gov.wales/docs/caecd/publications/160621-note-cy.pdf
[3] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents
[4] http://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/bus-assembly-guidance.aspx
[5] http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10600/gen-ld10600-w.pdf

## Ffigur 1


Mehefin 2016
Llywodraeth Cymru
Cyllideb Atodol
2016-17
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil
Prif ffigurau'r Gyllideb Atodol (CA)*, yn dangos y symudiadau ariannol o Gyllideb Derfynol (CD) 2016-17
TME Cyfanswm
£16,079m
+13m
+0.1%
=
DEL - Refeniw
£13,181m
+£22m
+0.2%
+
DEL - Cyfalaf
£1,366m
+£9m
+0.7%
+
AME
£1,533m
-£18m
-1.2%
Cyfanswm y Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)
£14,547m
+£30m
+0.2%
Cyfanswm y dyraniad DEL
Newid CD i CA
Iechyd, Llesiant a Chwaraeon
Yn flaenorol: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
£7,016m
£0m
0.0%
Llywodraeth Leol
£3,354m
£0m
0.0%
Addysg
Yn flaenorol: Addysg a Sgiliau
£1,621m
+£10m
+0.6%
Yr Economi a'r Seilwaith
Yn flaenorol: Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaetht
£1,114m
+£2m
+0.2%
Cymunedau a Phlant
Yn flaenorol: Cymunedau a Threchu Tlodi
£734m
£0m
0.0%
Yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Yn flaenorol: Adnoddau Naturiol
£386m
+£11m
+2.9%
Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu
£321m
+£8m
+2.5%
*Mae'r ffigurau ar gyfer Cyllideb Derfynol 2016-17 wedi'u nodi eto i ystyried newidiadau i bortffolios Gweinidogion yn dilyn ethol Llywodraeth Cymru newydd yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2016.
Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu. Cewch yr union ffigurau yng Nghyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2016-17.
TME: Cyfanswm y Gwariant a Reolir | AME: Gwariant a Reolir yn Flynyddol | CA: Cyllideb Atodol | CD: Cyllideb Derfynol.
DEL yw'r rhan ddisgresiynol y gyllideb y caiff Llywodraeth Cymru ddewis sut i'w gwario; nid oes disgresiwn yn achos yr AME..

# Trafod y Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2016-17

## Cefndir

**8.** Prif bwrpas y gyllideb atodol oedd ailstrwythuro'r gyllideb er mwyn adlewyrchu'r newidiadau ym mhortffolios Gweinidogion Llywodraeth newydd Cymru yn dilyn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016. Yn ogystal, gwnaed nifer fach o ddyraniadau o gronfeydd wrth gefn i adlewyrchu dyraniadau a wnaed gan Lywodraeth flaenorol Cymru nad oeddent yn y gyllideb derfynol. Daw'r dyraniadau hyn i gyfanswm o £21.5 miliwn mewn refeniw ac ychydig yn llai na £9 miliwn mewn cyfalaf.

**9.** Mae'r dyraniadau refeniw yn cynnwys:


- £10 miliwn i'r prif grŵp gwariant (MEG) Addysg **ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). O'r swm hwn, dyrennir £5 miliwn i gefnogi astudio rhan-amser mewn prifysgolion, a bydd y £5 miliwn sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwaith ymchwil;
- £7.7 miliwn i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i dalu am gost etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd ym mis Mai 2016;
- £2.3 miliwn i MEG yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar gyfer mesurau **amddiffyn rhag llifogydd**; a
- £1.5 miliwn i'r **cynllun rhyddhad ardrethi busnes a gyhoeddwyd ar gyfer Ardal Fenter Glannau Port Talbot**.

**10.** Mae'r dyraniadau cyfalaf yn cynnwys:

- Tri dyraniad i MEG yr Amgylchedd a Materion Gwledig, yn cynnwys £5 miliwn ar gyfer **cynlluniau rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd ledled Cymru**, £2.5 miliwn ar gyfer Camlas Aberhonddu a Sir Fynwy a £985,000 ar gyfer **cynllun lliniaru llifogydd Tal-y-bont**;
- £500,000 i MEG yr Economi a'r Seilwaith ar gyfer **gwelliannau i system ddraenio yr A55**.

**11.** Mae'r siart cylch yn ffigur 2 yn dangos cyfanswm y dyraniadau DEL fesul adran. Gellir gweld bod y MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon wedi cael dyraniad sy'n agos at hanner cyfanswm y DEL yn 2016-17.

**Ffigur 2**




## Safbwynt y Pwyllgor

**12.** Ar y cyfan, roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y cynigion yn y gyllideb atodol a nododd mai prif bwrpas y gyllideb atodol oedd ailstrwythuro er mwyn adlewyrchu'r newidiadau ym mhortffolios Gweinidogion Llywodraeth newydd Cymru.

## Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

**13.** Un o'r materion a archwiliwyd yn fanwl yng **ngwaith craffu Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad ar Gyllideb Ddrafft 2016-17** oedd y gostyngiadau arfaethedig ar gyfer Addysg Uwch.

**14.** Yn wreiddiol, nododd Cyllideb Ddrafft 2016-17 ostyngiad o £41.1 miliwn yng nghyllid CCAUC o gymharu â'r ffigur ar gyfer y sector addysg uwch yn 2015-16. Yng Nghyllideb Derfynol 2016-17, newidiwyd y swm hwn i ostyngiad o £20 miliwn. Bellach, ni weithredir y trosglwyddiad technegol o £21.1 miliwn o gyllideb CCAUC i'r llinell gyllideb y telir y grant ffioedd dysgu ohoni.

**15.** **Hefyd, yn nogfennau'r Gyllideb Derfynol**, roedd ymrwymiad i ddarparu £10 miliwn yn rhagor o gyllid i gyllideb CCAUC yn y gyllideb atodol hon, sef £5 miliwn ar gyfer darpariaeth astudio ran-amser a £5 miliwn ar gyfer gwaith ymchwil. Mae'r dyraniadau hyn bellach wedi eu gwneud yn y gyllideb atodol.

**16.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r £10 miliwn a ddyrannwyd i gyllideb CCAUC yn cael ei ddyrannu fel y nodir yn y Gyllideb Derfynol gyda £5 miliwn ar gyfer darpariaeth astudio ran-amser a £5 miliwn ar gyfer gwaith ymchwil.[6]

**17.** Dywedodd fod y dyraniad wedi'i gynnwys yn y gyllideb atodol yn hytrach na'r gyllideb derfynol am fod amserlen cyllideb Llywodraeth Cymru yn hwyr y llynedd o ganlyniad i adolygiad cynhwysfawr o wariant Llywodraeth y DU. Dywedodd fod y mater penodol hwn wedi dod i'r amlwg rhwng y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol.[7]

## Safbwynt y Pwyllgor

**18.** Roedd y Pwyllgor yn falch o weld bod yr ymrwymiad a wnaed ar adeg y Gyllideb Derfynol yn cael ei adlewyrchu yn llythyr cylch gwaith CCAUC ar gyfer 2016-17, a hefyd yn y gyllideb atodol hon.

### Benthyciadau i fyfyrwyr

**19.** Roedd y prif newidiadau o ran gwariant AME yn y gyllideb atodol yn ymwneud â benthyciadau i fyfyrwyr. Mae'r rhain yn dangos cynnydd o £8.2 miliwn mewn refeniw a gostyngiad o £35.5 miliwn yn y cyfalaf a ddyranwyd, a hynny er mwyn adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer benthyciadau myfyrwyr.

**20.** Ar y mater hwn, dywedodd yr Ysgrifennydd Cabinet fod yr arian sy'n cael ei ddarparu i gefnogi benthyciadau myfyrwyr yn gyfnewidiol iawn, a bod nifer o ffactorau y tu ôl i'r newidiadau nad ydynt o ganlyniad i newidiadau ym mholisi'r Llywodraeth.[8] Eglurodd:

> "student numbers go up and down; the money you hand out is balanced by the money you're getting back in through repayments and repayments go up and down; and, this year in particular, for the first time, there is the first year of a revised system of part-time loans for students, which, additionally, makes the system volatile."[9]

**21.** Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y system ddiwygiedig ar gyfer benthyciadau rhan-amser i fyfyrwyr yn un ffactor sydd wedi dod i'r fei o ganlyniad i newid ym mholisi'r Llywodraeth.[10]

## Costau'r etholiad

**22.** Yn y gyllideb atodol, nodir dyraniad o £7.7 miliwn i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i dalu am gost etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd ar 5 Mai 2016. Mae'r dyraniad hwn yn cynnwys y costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r etholiadau. Yn dilyn etholiad blaenorol y Cynulliad a gynhaliwyd yn 2011, **gwnaed dyraniad tebyg yn y gyllideb atodol gyntaf a gynhaliwyd ar ôl yr etholiad**.

**23.** Mynegodd y Pwyllgor bryderon mai amcangyfrif oedd y dyraniad o £7.7 miliwn i dalu am gost yr etholiad o hyd. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod £4 miliwn o'r £7.7 miliwn hwnnw yn gost sefydlog a godir gan y Post Brenhinol ar gyfer dosbarthu deunydd ynglŷn â'r etholiad.[11]

---

[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 30, 28 Mehefin 2016
[7] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 31, 28 Mehefin 2016
[8] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 39, 28 Mehefin 2016
[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 39, 28 Mehefin 2016
[10] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 44, 28 Mehefin 2016
[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 49, 28 Mehefin 2016

**24.** Aeth Ysgrifennydd y Cabinet ymlaen i ddweud bod y £3.7 miliwn sy'n weddill ar gael i swyddogion canlyniadau am y gwaith o gynnal etholiadau yn eu hardaloedd. Dywedodd iddynt gyrraedd y ffigur hwn drwy edrych ar gostau'r etholiad diwethaf yn 2011 ac yna addasu'r ffigur yn unol â chwyddiant.[12]

**25.** Nododd fod etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi'u cynnal ar yr un diwrnod ag etholiad y Cynulliad yn 2016 a bod hynny wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol. Dywedodd fod y £7.7 miliwn yn llai na chost etholiad 2011 gan fod rhai costau wedi'u rhannu â'r Swyddfa Gartref, sy'n gyfrifol am etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.[13]

**26.** Pan ofynnwyd pam nad oedd y gost wedi'i chynnwys yn y gyllideb derfynol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> "It is easier to be accurate when you're estimating the costs of something that has happened, rather than when you're trying to do it prospectively."[14]

**27.** Cadarnhaodd y byddai'r gost derfynol yn cael ei chynnwys yn yr ail gyllideb atodol, unwaith y daw'n hysbys, ac roedd yn disgwyl y byddai hynny ym mis Chwefror 2017.[15]

## Safbwynt y Pwyllgor

**28.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed bod y dyraniad a wnaed ar gyfer etholiad y Cynulliad a gynhaliwyd ym mis Mai 2016 yn is nag ar gyfer yr etholiad blaenorol yn 2011 am fod y Llywodraeth wedi rhannu'r costau â'r Swyddfa Gartref. Rydym am gadw'r costau hyn mor isel â phosibl, a sicrhau ar yr un pryd fod staff sy'n gweithio i gefnogi'r gwaith o gynnal etholiadau yn cael lefel addas o dâl.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fanteisio ar gyfleoedd i leihau'r gost o gynnal etholiadau i drethdalwyr.

## Ardal Fenter Glannau Port Talbot

**29.** Mae'r gyllideb atodol yn dyrannu £1.5 miliwn i'r cynllun rhyddhad ardrethi busnes yn Ardal Fenter Glannau Port Talbot[16]. Mae'r cynllun ar agor i fusnesau bach a chanolig, a rhoddir blaenoriaeth i fusnesau newydd a busnesau sydd yn cynyddu eu gweithluoedd llawn-amser parhaol.

**30.** Ar ôl i Tata Steel gyhoeddi ym mis Ionawr 2016 y byddai swyddi'n cael eu colli, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Gweinidog dros yr Economi ar y pryd, Edwina Hart AC, wedi cyflwyno nifer o fesurau a bod y cynllun rhyddhad ardrethi busnes yn rhan o'r mesurau ehangach i wneud y sefyllfa'n fwy diogel i'r busnesau sydd eisoes yn yr ardal, a'i gwneud yn fwy tebygol y gallant ehangu a denu busnesau eraill yno.[17]

**31.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn hyderus y byddai'r £1.5 miliwn yn gwneud gwahaniaeth.[18] Dywedodd fod y cynllun rhyddhad ardrethi busnes wedi'i gyflwyno ar y sail a ganlyn:

> "the history of successful interventions elsewhere, in other enterprise zones, where there was evidence that a relief scheme of this sort did assist existing

---

[12] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 49, 28 Mehefin 2016
[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 50, 28 Mehefin 2016
[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 55, 28 Mehefin 2016
[15] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 55, 28 Mehefin 2016
[16] **https://businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy/cynllun-ardrethi-busnes-0**
[17] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 9, 28 Mehefin 2016
[18] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 16, 28 Mehefin 2016

> local businesses to deal with the circumstances they now found themselves in, to be in a better position to expand, and to take on workers where labour was available, but, also, in making the area additionally attractive to other businesses to locate."[19]

## Safbwynt y Pwyllgor

**32.** Mae'r Pwyllgor yn nodi'r dyraniad yn y gyllideb i Ardal Fenter Glannau Port Talbot. Fodd bynnag, hoffai'r Pwyllgor glywed mwy am y dystiolaeth sy'n sail i benderfyniadau o'r fath. Rydym yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu'r wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch y gost fesul pob swydd a gaiff ei chreu a'i diogelu drwy'r cynlluniau hyn.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi mwy o dystiolaeth sy'n nodi'r rhesymeg y tu ôl i ddyraniadau'r gyllideb yn y dyfodol, fel y cynllun rhyddhad ardrethi busnes, gan gynnwys manylion am yr effaith economaidd a ragwelir. Bydd hyn yn helpu Aelodau'r Cynulliad a phobl Cymru i graffu ar raglenni o ran eu llwyddiant a'u gwerth am arian. Cyflwyno'r gyllideb ac arian canlyniadol Barnett

**33.** Cafodd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad drafferthion wrth ddilyn hynt a chymharu'r newidiadau i'r dyraniadau adrannol oherwydd i gyfrifoldebau gael eu newid a'u trosglwyddo rhwng adrannau Llywodraeth Cymru yn rheolaidd.

**34.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet mai prif bwrpas y gyllideb atodol oedd sicrhau bod datganiad pendant yn cael ei wneud ynglŷn â sut y mae cyfrifoldebau Ysgrifenyddion y Cabinet yn cyd-fynd â chyfrifoldebau'r Gweinidogion a beth yw sefyllfa bresennol y cyllidebau.[20]

**35.** Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn barod i ddilyn y protocolau y cytunwyd arnynt yn flaenorol, gan gynnwys protocol y gyllideb y cytunwyd arni rhwng y Pwyllgor Cyllid blaenorol a'r Gweinidog Cyllid blaenorol. Dywedodd y gall fod yn anodd deall pan fo cyfrifoldebau Gweinidogion yn newid a phan fo cyllidebau'n cael eu had-drefnu a'u haddasu. Felly, yn y gyllideb atodol hon, roedd wedi sicrhau bod y wybodaeth yn y nodiadau esboniadol wedi'i chyflwyno mewn tablau sy'n dangos sut y dyrannwyd yr arian o gymharu â'r gyllideb flaenorol. Dywedodd y byddai'n ceisio parhau i ddarparu gwybodaeth yn y ffordd hon.[21]

**36.** Mewn perthynas ag arian canlyniadol Barnett, darparodd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid blaenorol, fanylion enghreifftiau unigol o arian canlyniadol Barnett a gafwyd yn sgil newidiadau i wariant adrannol Llywodraeth y DU ar adeg cyhoeddi cyllidebau drafft, terfynol neu atodol. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'n parhau â'r arfer hwn.[22]

## Safbwynt y Pwyllgor

**37.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed Ysgrifennydd y Cabinet yn rhoi sicrwydd ei fod yn barod i ddilyn protocol y gyllideb y cytunwyd arno â'r Pwyllgor Cyllid blaenorol.

**38.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i dryloywder o ran darparu gwybodaeth gyllidebol a manylion symiau canlyniadol Barnett, cyn i gyllidebau atodol, drafft a therfynol gael eu cyhoeddi neu phan fo hynny'n digwydd. Roedd y tablau yn y nodyn esboniadol ar gyfer y gyllideb atodol hon yn ddefnyddiol wrth egluro'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i ad-drefnu

---

[19] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 16, 28 Mehefin 2016
[20] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 64, 28 Mehefin 2016
[21] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 65, 28 Mehefin 2016
[22] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 67, 28 Mehefin 2016

portffolios y Gweinidogion. Er ei bod yn anoddach cymharu gwariant ar raglenni neu adrannau dros amser yn sgil y newidiadau hyn, mae'n bwysig iddynt fod ar gael er tryloywder, yn ein barn ni.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwybodaeth i sicrhau ei bod yn bosibl olrhain dyraniadau i adrannau a phrosiectau mawr yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Dylai hyn gynnwys galluogi cymariaethau i gael eu gwneud pan fydd portffolios Ysgrifenyddion Cabinet yn newid.

## Cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru a heriau cyllidebol yn y dyfodol

**39.** Holodd y Pwyllgor Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch y cronfeydd wrth gefn a ddelir yn y gyllideb atodol, a oedd yn uwch na'r arfer â £270 miliwn mewn cronfeydd refeniw cyllidol a £177 miliwn mewn cronfeydd cyfalaf wrth gefn. Mae hefyd £172 miliwn mewn cronfeydd refeniw anghyllidol.

**40.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet o'r farn bod hynny'n lefel resymol, ar y cam hwn, a hithau mor gynnar yn y flwyddyn ariannol. Dywedodd mai pwrpas cronfeydd wrth gefn yn y bôn yw gwneud yn siŵr bod Llywodraeth Cymru yn gallu delio â digwyddiadau annisgwyl yn ystod y flwyddyn, gan fod dyfodol ansicr iawn o'i blaen o safbwynt ei chyllidebau.[23]

**41.** Aeth yn ei flaen:

> "We have £3.5 billion of unallocated cuts from the last Chancellor's budget. This time last year…the Welsh Government had to cope with £50 million-worth of in-year revenue reductions from the Westminster Government, and we were able to deal with those by covering them from reserves, rather than requiring spending cuts to be made. If the £3.5 billion were all to land in Barnett-comparable areas, that would be £150 million taken out of the Welsh Government budget."[24]

**42.** Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at sylwadau Canghellor y Trysorlys y byddai datganiad yr hydref yn cynnwys cynnydd mewn trethi a thoriadau pellach o ran gwariant. Dywedodd yr Ysgrifennydd y Cabinet: "the need for a reserve is there for us to be able to mitigate some of those decisions and their impact on Welsh public services".[25]

## Safbwynt y Pwyllgor

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am drafodaethau â Thrysorlys y DU ynghylch unrhyw benderfyniadau a allai arwain at newidiadau i gyllideb Llywodraeth Cymru yn y misoedd nesaf.

[23] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 71, 28 Mehefin 2016
[24] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 71, 28 Mehefin 2016
[25] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion drafft, paragraff 71, 28 Mehefin 2016

# Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiad a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiad llawn o'r sesiwn dystiolaeth lafar yn **www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15047**

*Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2016*

| **Enw** | **Sefydliad** |
|---|---|
| Mark Drakeford AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol |
| Gawain Evans | Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru |
| Matt Denham-Jones | Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolyddion Ariannol, Llywodraeth Cymru |